# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**By Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 4 Mawrth 2021**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 20)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR 2021/22 |
|---|---|

Cymeradwyo penderfyniad Treth y Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2021/2022.
(Tudalennau 21 - 44)

| 8. | ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2021 O'R WELEDIGAETH 2025 EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL GAN GYNNWYS EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024 |
|---|---|

Ystyried Adolygiad Blynyddol 2021 o'r Weledigaeth 2025 Ein Cynllun Gwella Corfforaethol, gan gynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.
(Tudalennau 45 - 122)

| 9. | DATGANIAD POLISI CYFLOG 2021/22 |
|---|---|

Ystyried y Datganiad Polisi Cyflog 2021/22.
(Tudalennau 123 - 146)

| 10. | RHYBUDD O GYNNIG - SEFYLL LAN DROS OFALWYR |
|---|---|

Mae COVID wedi cyflwyno cymaint o heriau i ni ers mis Mawrth 2020. Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar gyfle i SEFYLL LAN DROS OFALWYR.
Ar ddiwedd 2019 ym Mhowys roedd tua 2627 o ofalwyr gyda'r hawl i dderbyn Lwfans Gofalwyr, 1563 yn derbyn y lwfans a 1064 o breswylwyr Powys sy'n gofalu am rywun yn ddi-dal.

**1. Nodiadau'r Cyngor ar gyfer y cynnig:**

a. Gofalwyr – rhai sy'n cael eu talu ac yn ddi-dal, ifanc a hen – maen nhw'n gwneud gwaith anhygoel a phwysig. Mae'r gofalwyr hyn yn rhan annatod o gymuned Powys. Maen nhw'n haeddu ein cymorth ond yn llawer rhy aml maen nhw'n cael eu hanghofio a'u hanwybyddu.

b. Mae gofalwyr ym Mhowys a ledled Cymru yn wynebu heriau mawr bob dydd; heriau sydd wedi'u gwneud yn llawer mwy anodd gan bandemig COVID-19. Mae'r rhan fwyaf yn gorfod treulio mwy o amser yn gofalu am anwyliaid yn ystod y pandemig; mae'r rhan fwyaf heb allu cymryd un seibiant ers iddo ddechrau; ac mae'r rhan fwyaf wedi blino'n lân.

c. Mae gofalwyr di-dal yn arbed o leiaf £8 biliwn y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Gofynnir i ofalwyr weithio unrhyw beth o 35 awr i 168 awr yr wythnos am y taliad cyflawn o £67.25, pan fod gofalwyr sydd wedi'u recriwtio ac yn cael eu talu gan y Cyngor yn gallu ennill hyd at £1,176 yn ystod yr un cyfnod o amser.

**2. Rhagor o nodiadau'r Cyngor :**

a. **Yn £67.25 yr wythnos, Lwfans Gofalwyr yw'r budd-daliad isaf o'i fatha.**

b. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, cynyddodd y Llywodraeth y lwfans safonol Credyd Cynhwysol ac elfen sylfaenol y Credyd Treth Gwaith o £20 yr wythnos yn uwchben y cynnydd arfaethedig ym mis Ebrill 2020, ond nid yw wedi cynyddu Lwfans Gofalwr.

c. Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn wynebu caledi ariannol eithafol. Canfu arolwg diweddar gan Carers UK fod mwy na thraean o'r rhai sydd ar Lwfans Gofalwr yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae llawer wedi bod yn ei chael hi'n anodd ers misoedd, gan ddibynnu'n aml ar fanciau bwyd i fwydo eu hunain a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae gan Bowys un o'r cyfraddau uchaf o ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae gofalwyr di-dâl yn cyfateb i 41% o'r holl ofalwyr a dim ond Gwynedd sy'n cyfateb i'r lefel honno (Ystadegau Gwladol y DU 2019).

d. Canfu arolwg Carers UK ***fod "43% o ofalwyr yn teimlo y byddai cynnydd yn y Lwfans Gofalwr yn eu helpu, o ystyried y pwysau ariannol sy'n eu hwynebu."***

**3. Bod y Cyngor yn penderfynu:**

a. Rhaid i ni sefyll lan dros ofalwyr, gwneud mwy i'w cefnogi, ac adeiladu cymdeithas fwy gofalgar wrth i ni ddod allan o bandemig Covid-19.

**4. Bod y Cyngor yn cyfarwyddo Arweinydd y Cyngor i:**

a. Ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, gan eu hannog i godi Lwfans Gofalwr o £20 yr wythnos ar unwaith, yn unol â'r cynnydd mewn Credyd Cynhwysol.

b. Mae'r Cyngor yn cytuno i anfon gohebiaeth gyffredinol i ofalwyr di-dâl, sefydliadau'r trydydd sector a chynghorau cymuned i annog gofalwyr i hawlio Lwfans Gofalwyr.

c. Sicrhau bod Cyngor Sir Powys yn parhau i wneud popeth mae'n gallu i Sefyll lan dros Ofalwyr.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emily Durrant

| 11. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

11.1. **Cwestiwn gan y Cynghorydd Sir Stephen Hayes i'r Aelod Portffolio ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant**

Ar 21 Awst ysgrifennodd y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, ADCS a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol at gynghorau mewn perthynas ag Ymfudwyr sy'n Blant Di-gwmni (*cyfeirir atynt weithiau fel plant* ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches) yn datgan bod argyfwng gofal yn codi yng

Nghaint oherwydd nifer y bobl ifanc sy'n agored i niwed sydd angen gofal.

Roedd y llythyr yn nodi '… mae angen cymorth brys pellach ar gyfer y canlynol ar draws pob rhan o'r DU:

- Cynigion o leoliadau yn eich ardal
- Cynigion i gymryd cyfrifoldeb llawn o dan Ddeddf Plant 1989 am y bobl ifanc hyn
- Cynigion i oruchwylio pobl ifanc wedi'u gosod yn eich ardal
- Cynigion i roi llety yn unigyrchol i bobl ifanc o'r 'Kent Intake Unit' yn Dover.'

(gellir gweld y testun llawn yma https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/20200821%20joint%20letter%20re%20Kent%20crisis.pdf )

Ar 28 Awst cyhoeddwyd yn y cyfryngau lleol fod Powys wedi gwrthod yr apêl hon ac na fyddai'n cynnig croeso i Ymfudwyr sy'n Blant Di-gwmni. Mae llawer o bobl wedi cysylltu â mi yn gofidio am y penderfyniad hwn, gan bwysleisio'r tosturi y maen nhw'n teimlo y dylem ni, fel sir a chenedl, ei deimlo a'n dyletswydd i ddangos hynny ar waith.

A allech egluro pa ymateb a roddwyd i'r llythyr dyddiedig 21 Awst; pa gamau sydd wedi'u cymryd, fel Cyngor ac mewn cydweithrediad â chynghorau eraill, i gynnig croeso i Ymfudwyr sy'n Blant Di-gwmni; a nifer y plant o'r fath sydd wedi'u helpu hyd yma neu dros bwy y mae Cyngor Sir Powys wedi derbyn cyfrifoldeb o dan y Ddeddf Plant?
(Tudalennau 147 - 148)